# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddur
# Cynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2019
# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol**: David Rees AC, John Griffiths AC, Robert Edwards – Undeb Community, Steve Smith – Tata Steel, Bobbie Davies – Tata Steel, Tony Brady – Unite, James Van Der Graff – Liberty Steel, Brian Edy – y Sefydliad Dur a Metelau, Fliss Dolby – y Sefydliad Dur a Metelau

**Ymddiheuriadau**: Huw Irranca–Davies AC, Suzy Davies AC, Craig Lawton – Swyddfa Suzy Davies AC, Jeff Beck – GMB, Carwyn Jones AC, Llyr Hughes Griffiths AC, Jayne Bryant AC, Jack Sargeant AC, Chris Haag – Celsa Steel, Richard Warren – UK Steel, Chris Haag – Celsa– Steel, Paul Evans – Unite, Sean Parson – Liberty Steel

---

**Cadeirydd: David Rees AC**

**<u>Croeso</u>**

Croesawodd **David Rees AC** aelodau a chynrychiolwyr y diwydiant dur i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddur. Mae'r agenda ddur yn ddiddorol iawn ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd wleidyddol sydd ohoni, ond mae angen i ni edrych ar y pethau cadarnhaol sydd o'n blaenau.

**<u>Eitem 3: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019</u>**

Newidiadau bach i'w gwneud gan AT.

Derbyniwyd cofnodion **David Rees AC** yn gofnod cywir gyda newidiadau wedi'u gwneud.

**<u>Eitem 6: Cyflwyniad Sefydliad Dur a Metelau Prifysgol Abertawe.</u>**

Rhoddodd **Brian Edy** o Sefydliad Dur a Metelau Prifysgol Abertawe gyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol ar ei waith. Mae sleidiau Power Point o'r cyflwyniad ar gael drwy AT.

Cynhaliwyd trafodaeth ar gyllido, sut mae'r Sefydliad Dur a Metelau yn cael ei ariannu ar hyn o bryd, a pha fodelau cyllido y mae'n edrych arnynt ar ôl i gronfeydd yr UE ddod i ben.

Nododd **David Rees AC** ei bod bob amser yn ddiddorol cael gwybodaeth am yr agenda ymchwil o fewn y diwydiant, ac mae'n gyffrous gweld y gwaith y mae'r Sefydliad Dur a Metelau a'i bartneriaid yn ei wneud i symud hyn ymlaen. Yn amlwg, mae cyllid yn bryder, ac roedd yn siomedig bod dau brosiect wedi'u cymeradwyo ddoe ond nad oedd hwn yn un ohonyn nhw. Roedd yn falch o glywed trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn, a gofynnodd am fanylion ynghylch y cynnydd a wnaed â'r rheini.

Nododd Brian Edy fod materion i'w datrys, ac mae'n dibynnu ar yr awydd i symud y prosiectau hyn ymlaen. Hoffai feddwl y bydd achos busnes yn cael ei gwblhau yn ystod yr hydref, a thrwy weithio mewn partneriaeth, dylai hwn symud ymlaen cyn hir.

Gofynnodd **David Rees AC** ai tir oedd y broblem?

Ymatebodd **Brian Edy** mai lleoliad oedd y broblem.

Dywedodd **David Rees AC** os ydym am gael diwydiant dur modern yr 21ain ganrif yn y DU mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi'r gwaith hwn.

Dywedodd **John Griffiths AC** ei fod wedi cael trafodaeth ddiddorol gyda Liberty Steel ar ei farn ynghylch ffwrneisi ARC, a gofynnodd i'r Sefydliad Dur a Metelau a oedd wedi bod mewn trafodaethau'r sefydliad ynghylch gwaith yr Athro Allwood yn ei adroddiad 'Steel Arising'?

Dywedodd **Brian Edy** mai cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol yw'r mater o bwys i'r holl wneuthurwyr dur.

Nododd **David Rees AC** fod yr Athro Allwood wedi cynnig i ddod i gyflwyno ei adroddiad i'r Grŵp Trawsbleidiol. Cynigiodd JVDG o Liberty Steel i hwyluso hyn.

Diolchodd David i BE a FD am ddod i'r Senedd i gwrdd â'r Grŵp Trawsbleidiol a rhoi cipolwg i ni o'r gwaith maen nhw'n ei wneud.

**<u>Eitem 5: Diweddariad gan wneuthurwyr dur Cymru</u>**

Gofynnodd **David Rees AC** i wneuthurwyr dur Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp.

Tata:

**Steve Smith** – y tro diwethaf i ni gwrdd, gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y fenter ar y cyd. Roedd Hans Fisher, am weld y fenter ar y cyd yn gweithio ac yn symud ymlaen. Gan nad yw hyn wedi digwydd, mae Hans Fisher wedi symud ymlaen (gadawodd ar 1 Gorffennaf 2019). Mae Dr Henrik Adam bellach wedi cymryd yr awennau oddi wrtho, ac mae ganddo gefndir yn y sector dur a modurol.

Mae Prif Swyddog Cyllid Tata, NK Misra, hefyd wedi ymddeol, ac mae Sandip Biswas wedi cymryd drosodd. Mae parch mawr tuag ato yn Tata Steel.

Mae ffwrnais chwyth rhif 5 hefyd wedi'i hailgychwyn; maent ran o'r ffordd drwy'r gwaith gwella o £30 miliwn ar y ffatri bos wrth iddynt osod y ddysgl newydd – ni fydd hyn yn ateb parhaol ond bydd yn gam ymlaen i'r ffatri ac mae'n dangos ymrwymiad i Gymru.

Mae'r galw ar y farchnad wedi dirywio, yn rhannol oherwydd pentyrrau stoc, ond hefyd mae'r galw yn yr UE wedi lleihau o 10 y cant, ac mae diwydiannau dur eraill yn cynhyrchu llai.

Gofynnodd **John Griffiths AC** am fuddsoddiad a pha mor anodd yw hi i Tata symud ymlaen â'r broses gynhyrchu

Nododd **Steve Smith** ei bod yn anodd, ac mae angen i Tata fod yn gadarnhaol o ran llif arian, Fodd bynnag, nid yw wedi gohirio prosiectau gwariant cyfalaf. Mae'n parhau i wneud yr hyn a addawodd, ond mae hyn yn edrych yn anoddach yn ystod ail hanner y flwydddyn. Newyddion cadarnhaol o ran y ddysgl BOS a'r craen dur.

**Rob Edwards** – mae’r pryderon yn dilyn y fenter ar y cyd yn parhau i fodoli, yn enwedig o ran ArcelorMittel a sut y bydd trawsnewid yn edrych yn Ewrop. Hefyd, mae pryderon ynghylch yr hyn a ddaw yn sgil proses ailstrwythuro.

**Steve Smith** – mae’n ymchwilio i drawsnewid yn y cwmni a byddant yn adrodd yn ôl. Y cwmni sy’n penderfynu ar yr hyn yr hoffai ei gymryd o’r adolygiad. Mae'n arwain at ansicrwydd ac ofn ond mae angen i ni edrych ar yr adborth ac nid ydym ar y cam hwnnw eto.

**Tony Brady** – y pryder mwyaf yw nad yw'r cwmni sy'n ymchwilio i hyn yn ymwneud â’r maes dur ac mae'n anochel y bydd yn golygu lleihau nifer y staff yn y pen draw. Gwnaeth McKinsey hynny. Beth maen nhw'n edrych arno gydag A&M?

**David Rees AC** - mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn er mwyn deall y broses a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Nid ydym yma i drafod British Steel, ond mae iddo ran yn hyn gan ein bod yn gweld yr hyn sy’n digwydd yno ar hyn o bryd.

Liberty:

**James Van Der Graff** – bu newidiadau i’r arweinyddiaeth yn Liberty Steel.

Cafwyd twf ar y cyfandir ac mae wedi caffael saith safle Dur yn yr UE. Mae Liberty yn llygadu’r DU ac mae’r cadeirydd yn symud yn ôl i’r DU i fyw yn barhaol.

Mae amodau’r farchnad yn hynod anheg yn y DU ar hyn o bryd, ond rydym yn cryfhau’r llyfrau archebion a nifer y cwsmeriaid yn raddol.

Diolchodd **James Van Der Graff** i **John Griffiths AC** am noddi lansiad yr adroddiad 'Steel Arising', a ysgrifennwyd gan yr Athro Allwood, sy'n trafod syniadau ynghylch defnyddio ffwrnesi ARC i ddisodli ffwrnesi chwyth traddodiadol, a’r ffaith bod gennym ddiwydiant dur cynaliadwy. Bydd JVDG yn trefnu i'r Athro Allwodd ddod i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn yr hydref.

Cytunodd **David Rees AC** i ofyn i'r Athro Allwood ddod i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol i drafod datgarboneiddio.

Cynigiodd **Bobbie Davies** i drefnu cynrychiolydd ar ran Tata ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol i drafod sut y mae Tata yn gweithio ar ddatgarboneiddio hefyd.

Diweddariad yr Undeb:

Cyflwynodd **Tony Brady** y wybodaeth ddiweddaraf am British Steel i’r Grŵp yn dilyn cyfarfod y Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn Senedd y DU. Credir bod hyd at ddeg o brynwr â diddordeb, ond nid oes neb yn sicr o’r niferoedd.

Y gred oedd y bydd Greg Clarke yn gadael yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol o dan Brif Weinidog newydd, a byddwn yn aros i weld pwy fydd yr Ysgrifennydd Gwladol newydd. Byddai'n dda pe gallem anfon llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol at yr Ysgrifennydd Gwladol newydd pan fydd yn dod i’r swydd er mwyn symud ymlaen â’r fargen i’r sector dur.

**David Rees AC** – sefydlwyd cyngor y sector dur yn ystod yr argyfwng economaidd, a arweiniodd at lunio bargen ar gyfer y sector. A fydd y grŵp hwnnw'n cael ei ailsefydlu?

**Tony Brady** – Hefyd, mae angen anfon llythyr at bwy bynnag fydd yn symud ymlaen â’r fargen.

Mae cwsmeriaid yn aros gyda British Steel, ond mae cyflenwyr yn poeni na fyddant yn cael eu talu.

**Rob Edwards** – Sefydlwyd cyngor y sector dur o ganlyniad i argyfwng, ac roeddem yn agos at lunio strategaeth ddiwylliannol, mae angen i ni adeiladu ar hyn er mwyn ei gyflawni. Rydym yn parhau i drafod:

- Prisiau Ynni
- Ardrethi busnes
- Caffael
- Ac yn awr, Brexit.

Mae angen i ni daro bargen ar gyfer y sector er mwyn ymateb i hyn i gyd, neu byddwn yn wynebu dyfodol anodd.

**Tony Brady** – Deallwn fod y Llywodraeth yn cymryd rhai asedau drosodd, mae pryder y gallai hyn ddigwydd gydag eraill.

**Rob Edwards** – ORB. Barn yr undebau llafur yw eu bod yn siomedig mai dyma yw’r sefyllfa yr ydym yn ei hwynebu, rydym ar fin gwneud rhywbeth arbennig gydag ORB wrth symud at gerbydau trydan. Mae angen arloesi yn ORB, dyma yw'r unig safle dur trydanol yn y DU ar hyn o bryd, ac mae’r diwydiant ceir yn dibynnu ar gystadleuaeth allanol. Mae angen buddsoddiad ar ORB. Mae'n dod yn ôl at yr arloesedd sydd ei angen arnom yn Rover ac Aerospace. Erbyn 2022 disgwylir cynnydd aruthrol o ran cynhyrchiant yn y sector, ac mae angen i ORB fod yn y gadwyn. Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gynnig cefnogaeth, ond yn sicr mae San Steffan.

Roedd **David Rees AC** yn bwriadu gofyn cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a'r Prif Weinidog ynghylch pa drafodaethau y maent wedi eu cael ar hyn. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael y sgyrsiau hyn gyda Tata a San Steffan.

**John Griffiths** – mae cryn rwystredigaeth yn ORB am ei fod yn credu y bydd buddsoddiad yn ei wneud yn sefydliad sy’n arwain y byd.

**David Rees AC** – Byddwn yn ysgrifennu at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn pa drafodaethau y mae'n eu cael â’r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ynghylch y diwydiant dur.

Gofynnodd **David Rees AC** a oedd unrhyw fater arall? Nid oedd unrhyw fater arall. Diolchodd David i bawb am y diweddariadau, a dywedodd ei fod yn dda clywed y pethau cadarnhaol yn y diwydiant, yn ogystal â'r pryderon.

Mae'n amlwg bod ansicrwydd o hyd ynghylch costau Brexit ac ynni, ac mae angen i ni fynd i'r afael â'r rhain i sicrhau diwydiant dur iach yng Nghymru. Mae angen i ni barhau i bwyso ar San Steffan i sicrhau bod y cyllid sydd wedi’i neilltuo ar gyfer y diwydiant dur yn aros gyda’r diwydiant ar ôl i ni ymadael â’r UE.

**Bobbie Davies** - mae cyfnod cyllido o ddwy flynedd ar ôl i ni adael yr UE, ac ar ôl hynny nid ydym wedi cael unrhyw ymrwymiad gan San Steffan. O ran RFC&S, pe bai dim cytundeb, byddai'r arian yn dod yn ôl i'r DU, ond ni fydd hyn wedi'i neilltuo.

**Rob Edwards** – mae'r cyllid hwn yn hanfodol ac mae angen i ni sicrhau ei fod ar gael.

Nododd David y gofynnwyd i'r Prif Weinidog ddod i'r cyfarfod heno, ond roedd ganddo ymrwymiad blaenorol, mae'n anfon ei ddymuniadau gorau.

Diolchodd David Rees AC i bawb am ddod.

Cafodd y cyfarfod ei gloi yn ffurfiol.